Pam mae angen mwy o gyfleusterau i drin ein gwastraff?
Taflen Ffeithiau 1

Pam na allwn ni barhau i anfon ein sbwriel i safleoedd tirlenwi?

Mae yna nifer o resymau pam na allwn ni barhau i anfon ein sbwriel i safleoedd tirlenwi:

Mae nifer y safleoedd tirlenwi sydd ar gael yn lleihau
Mae'r safleoedd tirlenwi sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd bron yn llawn, ac nid oes llawer o ardaloedd ar gael ar gyfer creu rhai newydd.

Cyfyngiadau ar anfon sbwriel i safleoedd tirlenwi
Gall gwaredu gwastraff gwyrdd a gwastraff o'r gegin (gwastraff bioddiraddiadwy) mewn safle tirlenwi achosi methan, sy'n un o'r nwyon tŷ gwydr cryfaf. Oherwydd hynny, mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi pennu targedau i'n helpu i osgoi anfon elfen fioddiraddiadwy (gwastraff gwyrdd a gwastraff o'r gegin) ein sbwriel cartref i safleoedd tirlenwi. Rhaid i ni gyrraedd y targedau hyn neu wynebu dirwyon mawr am bob tunnell o wastraff a anfonwn i safleoedd tirlenwi.

Mynydd Sbwriel sy'n Tyfu
Hanes o ddympio'r rhan fwyaf o'n sbwriel mewn safleoedd tirlenwi sydd gennym yng Nghymru. Un o'r rhesymau am hyn yw bod tirlenwi yn rhad iawn. Rhaid talu treth tirlenwi i waredu sbwriel ar y safle, ac yn y DU mae treth tirlenwi yn costio tua £14 ar gyfer pob tunnell o sbwriel, o gymharu â thua £40 y dunnell yn Ewrop. Bydd treth tirlenwi'n codi'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn ein helpu i osgoi defnyddio safleoedd tirlenwi, ond rydym yn cynhyrchu mwy a mwy o sbwriel bob blwyddyn. O ganlyniad, bydd angen i ni ganfod ffordd o drin yr holl wastraff.

Peryglon Llygru
Rheoleiddir safleoedd tirlenwi yn llym gan Asiantaeth yr Amgylchedd, ond yn y gorffennol, pan nad oedd y rheolau mor gadarn, gallai safleoedd tirlenwi achosi problemau i gymdogion gan ddenu pryfed a chreu aroglau, sbwriel a sŵn yn yr ardal gyfagos. Cafwyd achosion o lygru hefyd, wrth i gemegau (trwytholch) o'r sbwriel ollwng i'r tir neu'r dŵr cyfagos.

Rydym yn colli adnoddau gwerthfawr
Wrth gladdu ein sbwriel rydym yn colli adnoddau gwerthfawr a gallem ailgylchu llawer o ddeunyddiau sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd. Os ydynt yn mynd i safleoedd tirlenwi rydym yn eu colli am byth. Er enghraifft, mae angen 4 tunnell o ddeunydd crai (bocsit) i wneud 1 dunnell o alwminiwm. Mae'r gwaith o gloddio am focsit mewn gwledydd fel Ghana a Jamaica yn dinistrio coedwigoedd glaw. Pam ddylen ni anfon caniau alwminiwm i safleoedd tirlenwi yn lle eu hailgylchu a helpu i ddiogelu'r amgylchedd?

Os na allwn ni anfon ein sbwriel i safleoedd tirlenwi beth allwn ni ei wneud?
Mae sawl ffordd wahanol o ymdrin â'n gwastraff. Mae angen i ni droi ein **sbwriel yn adnodd!** Yn gyntaf rhaid i ni geisio lleihau faint o sbwriel a gynhyrchwn trwy feddwl yn ofalus am y nwyddau a brynwn - oes angen bag plastig arall arnoch, neu allwch chi fynd â'ch bag brethyn i'r archfarchnad? Yn ail, mae angen i ni ailddefnyddio'r deunyddiau rydym yn barod i'w taflu - all rhywun arall ddefnyddio'ch hen feic? Ac yn drydydd mae angen i ni geisio ailgylchu a chompostio cymaint o ddeunyddiau â phosibl.

Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006:
"Ein dyhead yw na fydd unrhyw dirlenwi ychwanegol ar gyfer gwastraff trefol yng Nghymru erbyn 2026."

Beth sy'n digwydd i'r sbwriel sydd ar ôl?
Mae yna nifer o opsiynau ar gyfer y gwastraff sydd ar ôl:

1. Triniaethau Biolegol
    - Compostio Caeedig
    - Cafn Troi Compost
    - Treulio Anerobig
2. Triniaethau Biolegol Mecanyddol (MBT)
    - MBT
    - BMT
3. Triniaethau Thermol
    - Troi Ynni yn Wastraff (EfW) – gan gynnwys Gwres a Phŵer Cyfunedig
    - Triniaeth Thermol Uwch (ATT)
        - Pyrolysis
        - Nwyeiddio

Mae'r dulliau hyn i gyd yn fodd o geisio cael gwerth o'ch sbwriel, boed trwy ei droi'n gompost neu ei wresogi i gynhyrchu trydan a gwres. Gallwch chi ddysgu mwy am driniaethau gwastraff trwy ddarllen y taflenni ffeithiau eraill yn y gyfres hon.

Pam mae angen mwy o gyfleusterau arnom?

Rydym wedi dibynnu ar anfon ein gwastraff i safleoedd tirlenwi am flynyddoedd lawer. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i opsiynau eraill ar gyfer ein gwastraff, a hynny ar frys!

Er mwyn cyrraedd ein targedau ar gyfer stopio anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, rhaid i ni ddechrau defnyddio cyfleusterau eraill yn syth bin. Amcangyfrifir y bydd angen i 600 o gyfleusterau trin gwastraff fod ar waith erbyn 2010 i sicrhau bod Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gyfarwyddeb Tirlenwi yr UE (1999/31/CE).

Ar hyd o bryd, tua 250 o gyfleusterau yn unig sydd ar waith. Wrth gofio y bydd angen dylunio, cynllunio ac adeiladu cyfleusterau newydd, mae amser yn gwibio heibio.

Beth alla i ei wneud?

Rydych chi'n cynhyrchu gwastraff y mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ei gasglu a'i drin. Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi wneud gwahaniaeth er mwyn cynorthwyo'ch awdurdod lleol a'r amgylchedd. Meddyliwch yn gyntaf am y sbwriel rydych chi'n ei gynhyrchu ar hyn o bryd, ac ystyriwch sut y gallech chi ei leihau.

Allech chi ailgylchu neu gompostio mwy o'ch gwastraff? Yn ail, cymerwch ddiddordeb yn yr hyn mae'ch awdurdod lleol yn ei ystyried. Byddant yn gwneud penderfyniadau anodd yn fuan am y ffordd y bydd eich gwastraff yn cael ei reoli yn ystod yr 20 i 30 mlynedd nesaf.

Cymerwch ran yn y broses ymgynghori, ceisiwch ddarganfod mwy am yr hyn maen nhw'n ei ystyried a rhowch wybod i'ch cymdogion! Mae pob un ohonom yn cynhyrchu sbwriel ac mae angen i ni ddechrau cymryd cyfrifoldeb am y ffordd rydyn ni'n cael gwared arno. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i ddarganfod mwy am yr hyn mae'n ei ystyried neu darllenwch ei strategaeth gwastraff arfaethedig. Mae'ch barn chi'n cyfri!

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.craffamwastraff.org.uk

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

WLGA • CLILC

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government